# Blwyddyn o Hyfforddiant Proffesiynol 2025-26

## Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd
















Credyd ar gyfer y lluniau o'r dyfrgwn byw: Jeff Chard

*Mae lleoliadau gwaith un-flwyddyn ar gael yn ystod 2025-26 sy'n rhoi profiad eang o wneud ymchwil a rheoli prosiectau i'r ymgeiswyr llwyddiannus.*

***Ynglŷn â'r prosiect:***

Cynllun cenedlaethol yw'r **Prosiect Dyfrgwn** sydd wedi bod yn casglu dyfrgwn a gafwyd yn farw er mwyn cynnal archwiliad post-mortem ers 30 mlynedd. Rhywogaeth a warchodir ledled Ewrop yw'r dyfrgi, ac mae ei bresenoldeb neu beidio'n arwydd o iechyd dŵr croyw. Mae data a samplau'n cael eu defnyddio mewn ymchwil amrywiol, tra bod gwybodaeth am leoliadau'r cyrff yn cael ei defnyddio i arwain gwaith cadwraeth.

***Ynglŷn â'r lleoliad gwaith*:**

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymwneud â phob agwedd o'r prosiect, gan gynnwys:

- **Dadansoddi data:** Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hyfforddi i reoli cronfeydd data, gwneud gwaith mapio digidol (ArcMap a QGIS) a gwneud gwaith modelu ystadegol gan ddefnyddio R.
- **Ymchwilio:** Yn rhan o'r gwaith craidd fydd cynnal archwiliadau post-mortem wythnosol ac archifo samplau, a bydd cyfleoedd i gynorthwyo ein tîm o fyfyrwyr PhD gan ddefnyddio, ymhlith pethau eraill, arolygon maes a dulliau ym meysydd ecoleg foleciwlaidd a microsgopeg. Hefyd, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu dewis ac ymgymryd â phrosiect ymchwil unigol sy'n cyd-fynd â'u diddordebau eu hunain.
- **Rhwydweithio proffesiynol:** Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cysylltu â sefydliadau cadwraeth ac asiantaethau'r llywodraeth (e.e. Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Asiantaeth yr Amgylchedd) i drefnu casglu cyrff.
- **Ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfleu gwybodaeth wyddonol:** Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cefnogi gweithgareddau rhwydweithio cymdeithasol ac yn helpu i drefnu gweithgareddau ymgysylltu, fel ffeiriau gwyddoniaeth, diwrnodau agored ac ymweliadau ag ysgolion. Byddan nhw hefyd yn monitro ebyst a galwadau ffôn ar ran y prosiect, gan helpu i ateb cwestiynau aelodau'r cyhoedd.

Bydd y lleoliadau gwaith fel rheol yn para blwyddyn, o fis Gorffennaf tan fis Medi fel arfer (rydyn ni'n hyblyg ac yn hapus i drafod hyn). Maen nhw ar gyfer myfyrwyr israddedig sy'n ymgymryd â blwyddyn o hyfforddant proffesiynol yn bennaf, ond byddwn ni'n ystyried ceisiadau gan unrhyw un sydd â diddordeb. Mae'r lleoliadau gwaith yn rhai heb dâl, ond gan ein bod yn rhan o sefydliad addysg uwch, bydd gan fyfyrwyr yr hawl i gael swm llawn eu benthyciad i fyfyrwyr. Efallai y bydd rhai cyfleoedd am dâl yn codi drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys diwrnodau agored a digwyddiadau ymgysylltu.

***Ceisiadau:***

Anfonwch eich **CV a'ch llythyr eglurhaol** at Dr Elizabeth Chadwick a Chloë Farrington drwy ebostio farringtonc@caerdydd.ac.uk.
Dyddiad cau: **1af Rhagfyr 2024.**
Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael yn https://www.cardiff.ac.uk/cy/otter-project. Fel arall, ebostiwch otters@caerdydd.ac.uk i glywed gan ein myfyrwyr sy'n ymgymryd â blwyddyn o hyfforddiant proffesiynol ar hyn o bryd.

Cardiff University Otter Project

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd